Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cwm Ogwr
# Heol Aber
# Pen-y-bont ar Ogwr
# CF32 7AJ

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod / The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd / Green Dragon Environmental Standard

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae 359 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 mlwydd oed yn Ysgol Gynradd Cwm Ogwr. Mae wedi'i lleoli ym mhentref Cwm Ogwr ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal breswyl Cwm Ogwr a'r ardal gyfagos. Yn gyffredinol, nid yw'r ardal yn freintiedig nac ychwaith yn ddifreintiedig yn economaidd, ond mae 24% o'r disgyblion yn byw mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf sy'n cael ei hystyried fel y degfed ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru ar y raddfa Tlodi Plant ar gyfer iechyd. Mae awdurdod lleol yn gofalu am bedwar disgybl. Mae gan ddau ddeg wyth y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru gyfan a'r awdurdod lleol. Nid oes unrhyw ddarpariaeth feithrin cyn-ysgol yn nalgylch yr ysgol.

Mae gan ryw 29% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganran hon yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Mae dau ddosbarth anghenion addysgol arbennig; mae un yn ddosbarth arsylwi ac mae'r dosbarth arall yn darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol, gan gynnwys disgyblion o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol. Mae 14 o ddosbarthiadau eraill, gan gynnwys un dosbarth meithrin.

Nid oes unrhyw ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith. Daw pedwar y cant o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ond nid yw'r un ohonynt yn cael eu haddysgu yn Saesneg fel iaith ychwanegol.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl yn Ysgol Gynradd Cwm Ogwr yw £3,242, sy'n cymharu ag uchafswm o £4,826 ac isafswm o £2,758 ar gyfer ysgolion cynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae gan yr ysgol yr 22ain gyllideb uchaf fesul disgybl allan o'r 52 o ysgolion cynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Bernir bod perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- mae gan bron bob un o'r disgyblion agwedd gadarnhaol at eu gwaith;
- mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd amlwg a phriodol yn eu medrau cyfathrebu;
- erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda ac yn helaeth fel rhan o'u gwaith ymchwilio; ac
- mae gan yr ysgol ddarpariaeth dda ar gyfer profiadau dysgu.

Fodd bynnag, mae angen i'r ysgol gadw mewn cof y materion canlynol y mae angen eu gwella:

- mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn is na pherfformiad ysgolion tebyg a'r ysgolion hynny yn y teulu o ysgolion;
- nid yw systemau a phrosesau newydd wedi cael amser i effeithio'n llawn ar ddarpariaeth eto;
- mae gormod o anghysondebau mewn arfer addysgu ac ystafell ddosbarth; ac
- nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn cynllunio a gweithredu addysgu medrau trosglwyddadwy, fel medrau cyfathrebu, rhifedd a meddwl, ar draws y cwricwlwm.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod prosesau gosod targedau'r ysgol yn gryf ac yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau;
- bod y system olrhain diwygiedig yn galluogi'r ysgol i nodi tanberfformio yn gynnar a gweithredu i fynd i'r afael ag ef; ac
- mae trefniadau cynhwysfawr a hylaw ar waith i ysgogi ffocws cliriach gan arweinwyr ar wella safonau.

## Argymhellion

I wella, mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth;

A2 sicrhau dilyniant mewn datblygu medrau ar draws y cwricwlwm;

A3 sicrhau cysondeb mewn arfer addysgu ac ystafell ddosbarth;

A4 canolbwyntio gwaith yr uwch dîm rheoli ar wella safonau; a

A5 gwella presenoldeb.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn paratoi cynllun gweithredu i amlinellu'r modd y bydd yn bwrw ymlaen ag argymhellion Estyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae safonau cyflawniad ar draws yr ysgol yn amrywio gormod. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda, ond mae cyflawniad a gwelliant o ran safonau yn aml yn anghyson mewn gwersi a thros gyfnod.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd amlwg a phriodol yn eu medrau cyfathrebu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu ac maent yn siarad yn glir ac yn hyderus gyda disgyblion eraill a chydag oedolion. Ar draws yr ysgol, mae'r cynnydd mewn ysgrifennu yn anghyson, ond erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda ac yn helaeth mewn amrywiaeth o ffurfiau ac ar draws ystod o bynciau fel rhan o'u gwaith ymchwilio. Mae'r disgyblion mwy abl yn cynhyrchu gwaith o safon uchel iawn.

Gall llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg ar lefel briodol mewn sefyllfaoedd ystafell ddosbarth ffurfiol, ond yn gyffredinol, nid oes ganddynt yr hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar mewn lleoliadau mwy anffurfiol.

Yn 2010, roedd perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion, yr awdurdod lleol a Chymru. Mae tuedd ar i lawr wedi bod am y ddwy flynedd diwethaf, yn dilyn dwy flynedd o gyflawni'n agos at y lefelau cyfartalog ar gyfer y teulu o ysgolion, yr awdurdod lleol a Chymru.

O'i chymharu ag ysgolion o natur debyg, ar sail hawl i brydau ysgol am ddim, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 yn y 25% isaf o'r perfformiad ar gyfer ysgolion ar gyfer pob pwnc yn 2010. Yn 2008 a 2009, roedd perfformiad yn y 50% is ar gyfer ysgolion tebyg, a'r eithriad yw perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd (y perfformiad disgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol) lle'r oedd yn y 50% uwch yn 2008.

Yn 2010, roedd perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 hefyd islaw perfformiad y teulu o ysgolion, yr awdurdod lleol a Chymru. Roedd perfformiad yn y tair blynedd flaenorol yn anghyson, a gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn perfformiad ym mhob un o'r pynciau craidd yn 2008. Roedd perfformiad yn 2009 yn agos at gyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru.

Mae'r perfformiad ar gyfer 2010 yn y 25% isaf ar gyfer ysgolion tebyg mewn Saesneg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd, ac yn y 50% is mewn mathemateg.

Mae gan yr ysgol un dosbarth arsylwi yng nghyfnod allweddol 1 a dosbarth ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol yng nghyfnod allweddol 2. Pan nad yw'r disgyblion hyn wedi'u cynnwys mewn dadansoddiodau o berfformiad, mae'r ysgol yn cymharu'n fwy ffafriol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, mae

perfformiad yn parhau i fod islaw disgwyliadau yn y teulu o ysgolion, ac o'i gymharu â'r lefelau ar gyfer Cymru gyfan a'r awdurdod lleol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, yn y ddau gyfnod allweddol, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ar y cyfan, ond i raddau amrywiol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn 2010, perfformiodd merched yn well na bechgyn yn y ddau gyfnod allweddol, gyda'r bwlch o ran rhyw yng nghyfnod allweddol 1 yn fwy nag yng nghyfnod allweddol 2. Roedd lefelau perfformiad bechgyn yn is na lefelau perfformiad eu cyfoedion o'u cymharu â chyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru gyfan yng nghyfnod allweddol 2, tra bod perfformiad merched yn weddol agos at y cyfartaleddau hynny.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn y dosbarth arsylwi yng nghyfnod allweddol 1, y rhai ag anawsterau dysgu cymedrol yng nghyfnod allweddol 2, a'r rhai ar y gofrestr ADY i gyd yn gwneud cynnydd priodol ac yn cyflawni'n dda yn unol â'u gallu.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn cyflawni cystal â disgyblion eraill.

**Lles: Da**

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agwedd gadarnhaol at eu gwaith. Maent yn gwrando'n astud ac yn canolbwyntio'n effeithiol ar eu tasgau, gan drafod eu gweithgareddau gyda brwdfrydedd a dealltwriaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n dda fel parau neu grwpiau ac yn gwneud cyfraniadau hyderus mewn trafodaethau ystafell ddosbarth. Maent yn parchu safbwyntiau ei gilydd a gallant gyfiawnhau eu penderfyniadau a'u barn.

Mae presenoldeb, oedd yn 92.3% yn 2010, ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru. Mae ymddygiad yn gyson dda. Mae disgyblion yn gymwynasgar ac yn parchu ei gilydd ac oedolion yn yr ysgol.

Mae disgyblion yn siarad yn wybodus ac yn gadarnhaol am bwysigrwydd bwyta'n iach, ac mae'r siop ffrwythau sy'n cael ei rhedeg gan gyngor yr ysgol yn galluogi disgyblion i wneud dewisiadau iach. Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn awyddus i ymgymryd â'r ystod amrywiol a helaeth o gyfleoedd chwaraeon a gynigir fel golff, jwdo, pêl-rwyd a phêl-fasged.

Mae cyngor yr ysgol yn galluogi disgyblion i ymgymryd â chyfrifoldebau ac mae'n rhan werthfawr o'r ysgol. Mae aelodau o'r cyngor yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ar sut i wario arian a godir o ganlyniad i'w hymdrechion codi arian, er enghraifft ar offer cae chwarae. Mae gan ddisgyblion rôl weithredol a defnyddiol yng ngwaith fforwm y dysgwyr fel rhan o broses hunanarfarnu'r ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth dda ar gyfer profiadau dysgu. Mae athrawon yn cynllunio rhaglen gynhwysfawr a difyr o weithgareddau dysgu sy'n mynd i'r afael yn llawn â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae datblygu'r arfer o gynnwys staff cymorth yn y broses gynllunio yn ddiweddar yn profi'n fuddiol. Mae'r rhaglen gynhwysfawr o ymholiadau ac ymchwil y mae disgyblion yn ymgymryd â hi yn sicrhau bod nifer o bynciau yn cael eu cyflwyno mewn modd dychmygus. Mae athrawon wedi cydweithio'n effeithiol i sicrhau y caiff amrediad pob pwnc ei gwmpasu ac maent wedi amlinellu dilyniant o fedrau sy'n benodol i bynciau yn drylwyr.

Ni chaiff y ddarpariaeth ar gyfer medrau dysgu cyffredinol ei nodi'n glir yn y cynlluniau ar gyfer pynciau. Nid yw'r cynllunio i fodloni anghenion ystod lawn y galluoedd yn gyson ym mhob dosbarth eto. Mae athrawon yn gwella'r ddarpariaeth trwy drefnu rhaglen eang o ymweliadau, digwyddiadau arbennig a chysylltiadau â'r gymuned.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth dda i alluogi disgyblion i gael dealltwriaeth o'u lle a'u cyfrifoldebau yn y byd. Mae'r cyngor ysgol sefydledig, yr Eco Gyngor a chysylltiadau ag Uganda yn cyfrannu'n gadarnhaol at y ddarpariaeth. Mae gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi bywyd yr ysgol yn dda.

Mae bron pob un o'r athrawon a'r staff cymorth ystafell ddosbarth yn defnyddio Cymraeg achlysurol ar lefel briodol yn nhrefn ddyddiol bywyd yr ysgol, ac maent yn annog disgyblion i ymateb. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag anghenion Y Cwricwlwm Cymreig yn dda.

**Addysgu: Da**

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae gan lawer o athrawon wybodaeth bynciol gyfredol a chynhwysfawr a disgwyliadau uchel o'u disgyblion.

Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau lle mae'r addysgu ar ei fwyaf effeithiol, mae athrawon yn rhannu amcanion gwersi a meini prawf llwyddiant clir gyda'u disgyblion, ac maent yn defnyddio ystod eang o ddulliau a thechnegau addysgu effeithiol. Mae pob un o'r athrawon yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus, ac mae llawer o athrawon yn gwneud defnydd arloesol o gyfryngau digidol i wella addysgu a dysgu. Mae athrawon yn trefnu cynorthwywyr cymorth dysgu yn ofalus ac maent yn cyfrannu'n gadarnhaol at y ddarpariaeth addysgu.

Mae athrawon bob amser yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig cadarnhaol i ddisgyblion. Mae'r marcio, yn y rhan fwyaf o achosion, yn ffurfiannol ac yn nodi ffordd ymlaen yn glir. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol. Yn yr arfer orau, mae disgyblion yn myfyrio ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu ac yn gwybod beth i'w wneud i wella eu dysgu.

Mae gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion.  Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni'n dda am gynnydd, cyflawniadau ac agweddau eu plant.  Mae'r adroddiad blynyddol i rieni yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol a manwl.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd hapus a gofalgar lle mae disgyblion yn datblygu agweddau da at iechyd a lles.  Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i blant fyfyrio ar eu credoau eu hunain, hyrwyddo gwerthoedd pwysig ar y cyd, ac maent yn sensitif wrth alluogi'r disgyblion i weithio â'i gilydd yn barchus.  Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth dda i ddisgyblion ddysgu gwerthfawrogi'r amgylchedd a'r diwylliant y maent yn byw ynddynt.

Mae'r polisi a'r trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr.  Mae asesiadau trylwyr yn golygu y gellir nodi anghenion yn gynnar.  Mae monitro manwl o ran cynlluniau addysg unigol yn sicrhau bod anghenion y disgyblion hyn yn cael eu bodloni'n effeithiol ar draws yr ysgol.  Mae'r trefniadau ar gyfer cymorth iaith yn gryf ac fe gânt eu hadolygu'n rheolaidd a'u haddasu'n briodol.  Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar waith gydag asiantaethau allweddol i gefnogi anghenion disgyblion unigol yn effeithiol.

Caiff disgyblion gyfarwyddyd gan wasanaeth yr heddlu ar faterion diogelwch, gan gynnwys diogelwch ar y ffordd a diogelwch ar y rhyngrwyd.  Er enghraifft, cafodd disgyblion y cyfle i nodi llwybrau diogel i'r ysgol a monitro cyflymder y traffig ar ffyrdd ger yr ysgol.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau clir ar gyfer diogelu.  Mae pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae gan yr ysgol ethos croesawgar a gofalgar ac mae'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth gymdeithasol yn dda.  Caiff pob un o'r disgyblion gyfle i wneud defnydd cyfartal o'r cwricwlwm, ac mae'r ysgol yn rhoi gweithdrefnau cynhwysiant effeithiol ar waith sy'n galluogi disgyblion i symud rhwng dosbarthiadau arbenigol a phrif ffrwd yn unol â'u hanghenion.  Mae hyn yn datblygu medrau cymdeithasol disgyblion yn dda ac yn herio stereoteipiau yn briodol.

Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a pharch at eraill yn dda.  Mae cyswllt ag ysgol yn Uganda yn codi ymwybyddiaeth disgyblion am amrywiaeth ac yn helpu iddynt ddatblygu gwerthoedd gofal ac empathi.  Mae disgyblion yn dysgu ystyr bod yn ystyriol a rhoi chwarae teg trwy waith allgyrsiol a chymryd rhan mewn gwasanaethau sy'n annog disgyblion i fyfyrio ar werthoedd.

Mae'r ysgol wedi gweithio gyda'r gymdeithas hanes leol i ddatblygu 'Archif Ogwr' yn yr ysgol.  Mae'r adnodd hwn yn gwreiddio'r ysgol yn dda yn ei hamgylchedd lleol ac yn hyrwyddo gwerthoedd lleol yn effeithiol.

Mae safon uchel i adeilad yr ysgol, y mannau dysgu yn yr awyr agored a'r tir a chânt eu cynnal yn dda iawn. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol sy'n darparu'n dda ar gyfer pob un o'r disgyblion ac mae ynddo offer da i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae staff a disgyblion yn gwneud defnydd da o leoedd amlswyddogaethol ar draws yr ysgol ac mae pob ystafell ddosbarth yn darparu amgylchedd gweithio pleserus iawn. Mae arddangosiadau deniadol o waith disgyblion ym mhob ystafell ddosbarth.

Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn elwa ar leoedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored sy'n cyfrannu'n dda at eu dysgu. Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn datblygu'r tir yn effeithiol fel adnodd dysgu.

Mae gan yr ysgol adnoddau o ansawdd da sy'n gweddu'n dda i anghenion dysgu'r disgyblion. Mae ganddi lyfrgell ag adnoddau da, ac mae'r disgyblion hefyd yn gwneud defnydd helaeth o'r llyfrgell yng Nghanolfan Fywyd Cwm Ogwr. Rhoddir ystyriaeth dda i anghenion disgyblion a rhieni anabl wrth gynllunio adnoddau yn strategol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth a ailstrwythurwyd yn ddiweddar yn cefnogi ac yn herio'r pennaeth yn ei nod i greu cwricwlwm arloesol sy'n cyflawni safonau cyflawniad uwch ar gyfer disgyblion. Mae rolau yn yr uwch dîm rheoli wedi'u diffinio'n glir ac mae arweinwyr canol yn gweithio'n galed iawn i gyflawni eu cyfrifoldebau. Trwy systemau anffurfiol, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn hyrwyddo lledaenu arfer dda. Fodd bynnag, nid yw'r systemau hyn wedi cael amser eto i effeithio'n llawn ar gyflawni mwy o gysondeb o ran safonau neu ddarpariaeth ar gyfer pob un o'r dysgwyr.

Mae targedau perfformiad athrawon yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae systemau perfformiad priodol ar waith ar gyfer pob un o'r staff. Mae disgrifiadau swydd yn gweddu'n addas i swyddi penodol yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol ar y cyfan. Mae rolau yn yr uwch dîm arweinyddiaeth yn cyd-fynd â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgol, fel y mae targedau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn fedrus wedi arwain at safonau gwell o ran lles ac annibyniaeth ymhlith disgyblion ac mae'n dechrau effeithio ar safonau cyflawniad. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd anghyson wrth ddechrau defnyddio medrau dysgu cyffredinol ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o lywodraethwyr yn deall eu rolau ac yn herio'r ysgol yn effeithiol. Mae llywodraethwyr yn deall data'r ysgol ac yn holi cwestiynau heriol ynglŷn â safonau disgyblion. Maent yn adnabod blaenoriaethau'r ysgol yn dda, ac maent yn ymwybodol o'i phrosesau hunanarfarnu. Fodd bynnag, nid yw llywodraethwyr yn cael eu cynnwys digon eto mewn hunanarfarnu nac mewn gosod cyfeiriad strategol yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan arweinwyr a rheolwyr canol ddarlun a dealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Yn gyffredinol, maent yn gwneud defnydd da o ystod o weithgareddau monitro i lunio barnau ar safonau a darpariaeth. Fodd bynnag, nid yw pob gweithgaredd yn canolbwyntio digon ar effaith y mentrau ar safonau cyflawniad disgyblion.

Mae cyflwyno system asesu fanwl yn ddiweddar yn golygu bod modd olrhain cynnydd pob un o'r disgyblion yn effeithiol. Trwy ddefnyddio'r system, gall athrawon nodi a thargedu disgyblion sy'n tanberfformio yn briodol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i hyn gael unrhyw effaith arwyddocaol ar gyflawniad y disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i farn rhieni a disgyblion ac yn bwydo eu sylwadau i mewn i'r broses hunanarfarnu. Er enghraifft, yn sgil ymatebion rhieni i holiadur, cynhaliwyd adolygiad o'r polisïau gwaith cartref ac ymddygiad yn ddiweddar. Mae cyngor yr ysgol a'r Fforwm Dysgwyr a sefydlwyd yn ddiweddar yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu at y broses hunanarfarnu.

Mae'r broses hunanarfarnu yn llywio'r targedau yn y cynllun datblygu ysgol yn briodol. Mae'r ysgol yn blaenoriaethu meysydd i'w gwella yn briodol ac yn rhoi strategaethau cadarn ar waith ar hyn o bryd i ysgogi'r canlyniadau dymunol. Trwy fonitro, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn glir ynglŷn â'r ffaith fod y cwricwlwm sy'n seiliedig ar ymchwilio wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau lles ac annibyniaeth disgyblion. Eu blaenoriaeth yn awr yw sicrhau cysondeb athrawon wrth ddefnyddio'r dull hwn, i ffurfioli dilyniant medrau yn y cwricwlwm sy'n seiliedig ar ymchwil a gwella safonau mewn darllen ac ysgrifennu trwy wneud cyflwyno'r meysydd hyn mor gyffrous ac arloesol â gwersi wedi'u harwain gan ymchwil. Mae strwythurau cynhwysfawr a hylaw ar waith i ysgogi'r gwelliannau hyn.

Mae cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion ers yr arolygiad diwethaf wedi bod yn anghyson. Mae darpariaeth a safonau Cymraeg ail iaith wedi gwella cryn dipyn. Mae disgyblion yn ysgrifennu at ystod ehangach o ddibenion, er bod cyfleoedd i ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig. Datblygwyd cynlluniau gwaith ym mhob maes pwnc. Trwy gyfleoedd wedi'u cynllunio, mae arweinwyr pwnc yn awr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro rheolaidd, ac mae rôl yr arweinydd pwnc wedi datblygu'n dda.

Mae pob un o'r staff yn elwa ar ddatblygiad proffesiynol parhaus sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder athrawon mewn addysgu Cymraeg fel ail iaith a'u gwybodaeth ynglŷn â sut i roi cwricwlwm yn seiliedig ar ymchwil ar waith. Mae gan bob un o'r staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r hyn sy'n gwneud cymuned ddysgu broffesiynol. Trwy gyfarfodydd tîm rheolaidd, mae athrawon a staff eraill yn rhannu gwybodaeth broffesiynol yn anffurfiol. Er mai megis cychwyn y mae'r rhain, mae partneriaethau dysgu proffesiynol ffurfiol yn yr ysgol wedi arwain at newidiadau i arfer ystafell ddosbarth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae disgyblion yn elwa ar gysylltiadau cryf gydag ystod eang o asiantaethau sy'n rhannu gwybodaeth ac yn datblygu strategaethau cadarnhaol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag anfantais, ac i gefnogi lles disgyblion.

Mae'r cydweithio gyda'r Ganolfan Fywyd gyfagos yn eithriadol o gryf ac yn ymestyn ystod y cyfleusterau a'r cyfleoedd chwaraeon sydd ar gael i ddisgyblion. Gall disgyblion gymryd rhan mewn ystod eang o chwaraeon yn ystod ac ar ôl oriau ysgol, fel golff, jwdo, pêl-droed, pêl-rwyd a rhedeg traws-gwlad. Caiff y bartneriaeth gref effaith gadarnhaol ar les ac iechyd y disgyblion.

Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am fywyd yr ysgol trwy gylchlythyrau rheolaidd ac maent yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at godi arian, gan gynnwys trwy redeg cwmni cydweithredol ffrwythau a llysiau sefydledig.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'i hysgolion clwstwr, ac mae cynlluniau trosglwyddo yn cynnwys ffocws priodol ar addysgu, dysgu a lles. Mae'r ysgol wedi gweithio'n gadarnhaol ac yn gynhyrchiol gydag ystod o bartneriaid i ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r 'rhaglenni ymchwilio' dilynol yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn briodol i fodloni anghenion pob un o'r disgyblion. Mae athrawon ac arweinwyr canol yn gwneud defnydd effeithiol o amser cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'r ysgol wedi rheoli ei chyllideb yn dda yn ystod cyfnod o ostyngiad yn niferoedd y disgyblion. Mae wedi blaenoriaethu ei gwariant ac mae fel arfer yn cysylltu ei blaenoriaethau â gweithgareddau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar wella safonau cyflawniad disgyblion. Mae'r ysgol wedi defnyddio cyllid ychwanegol, a gafwyd trwy roddion, i wella'r ddarpariaeth yn yr awyr agored. Mae'r offer a'r cyfarpar a brynwyd o fudd i ddatblygiad corfforol ac emosiynol pob un o'r disgyblion. Mae'r defnydd o adnoddau ar y cyd gyda'r Ganolfan Fywyd yn cyfrannu'n dda at wella safonau lles y disgyblion.

Nid oes unrhyw safonau anfoddhaol nac agweddau annigonol ar y ddarpariaeth. Fodd bynnag, oherwydd bod safonau cyrhaeddiad ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol islaw'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu a chyfartaleddau ysgolion tebyg ac anghysondebau mewn safonau cyflawniad a darpariaeth fel ei gilydd, bernir bod yr ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i holiaduron dysgwyr**

Ymatebodd cant o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i'r holiadur disgyblion, ac roedd yr ymatebion i bron pob un o'r cwestiynau yn gadarnhaol iawn. Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn ddiogel yn yr ysgol, ac mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, a bod yr athrawon ac oedolion eraill yn helpu iddynt wneud cynnydd. Mae bron pob un ohonynt yn gwybod beth i'w wneud a phwy i ofyn os yw'r gwaith yn anodd. Yn yr un modd, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn rhoi llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff rheolaidd ac yn credu bod yr ysgol yn eu haddysgu ynglŷn â sut i gadw'n iach. Mae bron pob un o'r disgyblion yn credu bod digon o offer, llyfrau a chyfrifiaduron yn yr ysgol a bod eu gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith ysgol. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda fel y gallant wneud eu gwaith, a bod plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

**Ymatebion i holiaduron rhieni**

Cafodd un deg pump o holiaduron eu llenwi a'u dychwelyd i Estyn. Mae'r rhain yn dangos bod y rhan fwyaf o rieni yn fodlon â'r ysgol ar y cyfan, ac yn credu ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Mae rhieni yn nodi bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol, a bod y plant yn cael cymorth i ymgynefino'n dda pan fyddant yn dechrau am y tro cyntaf. Maent yn credu bod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb, a bod disgyblion yn yr ysgol yn ymddwyn yn dda. Mae bron pob un o'r rhieni yn teimlo bod eu plant yn hoffi'r ysgol a bod staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed. Maent hefyd yn credu bod yr ysgol yn annog ei disgyblion i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni yn teimlo bod yr addysgu yn dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd priodol. Yn eu barn nhw, mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys gwibdeithiau ac ymweliadau, mae staff yn yr ysgol yn trin plant yn deg a chyda pharch, ac fe gânt gymorth addas pan fydd anghenion penodol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant ac maent yn gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda materion neu gwestiynau i'w trafod. Dywedodd llawer ohonynt eu bod yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn credu bod y gwaith cartref a roddir i'w plant yn adeiladu ar y dysgu mewn ystafelloedd dosbarth, a bod y plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i addysg uwchradd.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Penny Lewis | Arolygydd Tîm |
| Liz Miles | Arolygydd Tîm |
| Deirdre Mary Emberson | Arolygydd Lleyg |
| Anthony Stevenson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr P Booth (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad ar gael gan yr ysgol ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost yr ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd chwech oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Sector uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cynnwys y grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |